

Y pwnc i'w drafod – Dementia – Rheoli Risg

Adeiladu ar gryfderau – Cynllunio gofal ac asesu risg Lefelau

1-3

Nodau ac Amcanion

Mae Adeiladu ar gryfderau wedi'i gynllunio i wneud y canlynol:

- Helpu gwasanaethau i ddarparu cynlluniau gofal unigol o ansawdd da ar gyfer pobl gyda dementia
- Gweithio tuag at amcanion cyffredin ac athroniaeth gyffredin
- Cynllunio'r gefnogaeth a roddir
- Safoni dulliau cadw cofnodion
- Monitro newidiadau a chymariaethau dros amser
- Ystyried sut i ddarparu amgylchedd cefnogol a galluogol
- Asesu'r hyn y gall yr unigolyn ddal i'w gyflawni, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn na all ef/hi ei wneud mwyach
- Ystyried sut i roi sylw i deimladau ac anghenion yr unigolyn
- Ystyried sut i ddarparu cyngor ystyrllon
- Canolbwyntio ar feysydd pwysig ym mywyd yr unigolyn
- Sut i weithio mewn partneriaeth rhwng staff, pobl â dementia a'u cynhalwyr teuluol

Mae gwahoddiad i gyfranogwyr ddod â chopïau o'r cynlluniau gofal presennol a ddefnyddir yn eu gweithle.

Disgwylir y bydd y wybodaeth a'r ymarferion a geir ar y diwrnod yn galluogi unigolion i weld sut y gellir defnyddio a/neu addasu cynlluniau gofal presennol ar gyfer trefniant sy'n wirioneddol unigolyn-ganolog ac wedi'i seilio ar gryfderau.

Cwrs/Rhaglen Ddysgu (yn cynnwys hyd)

Mae'r cwrs yn seiliedig ar waith ar y cyd gan Gymdeithas Alzheimer a Dementia Care Matters (prif grŵp hyfforddi'r DU ym maes gofal dementia).

Dynodir 7.5 awr ar gyfer y gweithdy.

- 1) Cyflwyniad i'r diwrnod.
- 2) Disgwyliadau cyfranogwyr – trafodaeth agored.
- 3) Nodi anawsterau neu broblemau a brofir gan staff o ran ffurf eu cynlluniau gofal presennol neu'r modd y maent i weithredu arnynt.
- 4) Cynllunio Gofal
 - Pwy? Pwy sy'n creu'r cynllun gofal? Ar gyfer pwy y mae'r cynllun gofal?
 - Beth? Beth y mae'r cynllun gofal yn ei asesu? A yw'n briodol?

- Pam? Pam y mae angen cynlluniau gofal arnom?
- Pryd? Pryd a pha mor aml y dylid eu gweithredu/ eu hadolygu?
- Sut? Sut y cynhelir yr asesiadau? Sut y rhoddir hwy ar waith?

Egwyl

- 5) Cynllunio gofal mewn perthynas â dementia – goblygiadau asesu yng nghyswllt cynlluniau gofal.
 - Beth maent yn ei asesu?
 - Sut y maent yn dangos newid?
 - A ydynt yn unigolyn-ganolog?
 - Beth yw'r ffordd ymlaen?

Cinio

- 6) Asesu Risg
 - Diffinio risg
 - Ystyried risg
 - Rheoli risg

Egwyl

- 7) Gweithio gyda'r unigolyn â dementia
 - Pa sgiliau sydd eu hangen ar staff fel y gallant asesu pobl â dementia?
 - Cynnwys yr unigolyn â dementia yn y broses o wneud penderfyniadau a chynllunio.
 - Parchu'r unigolyn a'i (g)alluogi i weithredu'n annibynnol.

8) Crynodeb

9) Gwerthuso

10) Diwedd

Cyfrngau dysgu/ arddulliau a ddefnyddir

Darlith, trafodaeth grŵp, astudiaethau achos, rhannu profiadau personol, taflenni gwaith, taflenni a ddsberthir, gweithio mewn timau bach (ymarferion mewn gweithio fel tîm, gwneud penderfyniadau, cynllunio a chyflawni tasgau), chwarae rolau.

Mae'r costau'n dibynnu p'un ai CDGD/DSDC sy'n cynnal y cwrs, ynteu a gaiff ei gomisiynu gan sefydliad unigol.